

Ffolio o!noy3

CANLLAWIAU

ffilm
CYMRU WALES

BBC | cymru
wales

BBC
ARTS

 Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

CYFLWYNIAD

Mae Ffolio yn bartneriaeth newydd gyffrous rhwng Ffilm Cymru, BBC Cymru, BBC Arts a Chyngor Celfyddydau Cymru. Bydd yn cynnig hyfforddiant, mentora a chyfleoedd comisiynu'r BBC i bobl creadigol addawol yng Nghymru sydd heb brofiad proffesiynol mewn ffilm neu deledu.

Cyn gwneud cais, beth am ddod i un o'n sesiynau cyngor ledled Cymru (a fydd yn cael ei ychwanegu at ein gwefan o fis Ionawr) neu anfon neges e-bost atom i wneud galwad ym mis Ionawr?

Ar ôl gwneud cais, byddem wrth ein bodd yn eich croesawu i un o'n cyfleoedd hyfforddiant am ddim, a bydd bwrsariaethau ar gael ar gyfer costau gofal plant a chludiant. Bydd y sesiynau hyfforddiant yn cynnwys datblygu syniadau, hyfforddiant ym maes cynhyrchu a datblygu cynulleidfaoedd ymhlith meysydd eraill a bydd yn gyfle i gysylltu ag unigolion creadigol eraill yn ogystal ag unigolion yn y diwydiant.

TERFYNAU AMSER

17:30 GMT ar 3^{ydd} Chwefror.

PWY ALL WNEUD CAIS?

Rydyn ni'n chwilio am unigolion creadigol sy'n yn seiliedig yng Nghymru o unrhyw oed dros 18 sydd eisiau datblygu eu syniad gwreiddiol yn ffilm fer broffesiynol.

Gallwch ddod o unrhyw gefndir creadigol, p'un a ydych chi'n ddawnsiwr, yn baentiwr, yn gerddor, yn gomediwr, yn fardd, yn ddylunydd gemau. Nid oes angen profiad ym maes ffilm neu deledu arnoch i wneud cais.

Dylech gyfeirio at ffrydiau ariannu eraill Ffilm Cymru a chylchoedd comisiynu BBC Cymru os ydych eisoes wedi cyfarwyddo ffilm neu raglen a gafodd ei hariannu a/neu ei sgrinio gan sefydliad yn y diwydiant ffilm neu deledu.

AM BETH YDYN NI'N CHWILIO?

Rydyn ni'n chwilio am gynigion ar gyfer ffilmiau byrion ffres, unigryw sy'n myfyrio ar y profiad o fyw yn y Gymru fodern. Gall eich syniad fod yn ddoniol, difrifol, pryfoclyd, haniaethol neu arbrofol...ond dylai fod ganddo rywbeth i'w ddweud wrth gynulleidfa sydd gennych mewn golwg. Dylai eu hysgogi i siarad a bod yn rhywbeth yr hoffen nhw ei rannu ar-lein. Gallai gynnwys animeiddio, elfen ddogfen, drama wedi'i sgrriptio neu berfformiad neu gymysgedd o ffurfiau artistig gwahanol. Rydym am i chi wthio ffiniau, boed hynny drwy stori neu drwy arbrofi â sain, delwedd neu strwythur.

Dylai eich syniad weithio fel ffilm fer o rhwng 90 eiliad a 5 munud, neu gynnwys episodig hyd at 5 munud, cyn belled ag y gellir ei wneud â chyllideb o hyd at £5,000.

Ni ddylai eich syniad fod yn newyddiaduraeth bur nac yn vlogio nac wedi'i anelu'n bennaf at gipio gweithgaredd sy'n bodoli eisoes – e.e recordio perfformiad theatr. Ni all eich cais fod

- ar gyfer prynu cyfarpar, digwyddiadau codi arian, neu at ddibenion addysg ffurfiol yn unig;
- ar gyfer prosiect a fydd wedi dechrau ffilmio neu wedi'i gwblhau cyn asesu'r cais.

Gall eich syniad fod yn Gymraeg, Saesneg, iaith arwyddion, neu mewn unrhyw iaith arall cyhyd â'ch bod yn darparu cyfieithiad Gymraeg neu Saesneg i ni wrth wneud y cais.

SUT MAE GWNEUD CAIS?

I wneud cais, lawrlwythwch y ffurflen gais o'n gwefan yma a'i hanfon mewn e-bost at Reolwyr Prosiect Ffolio Caroline Lane ac Amy Morris: ffolio@ffilmcymruwales.com.

Gallwch hefyd ymateb i'r cwestiynau yn y ffurflen hon ar ffurf fideo neu alwad ffôn – anfonwch e-bost i'r cyfeiriad uchod i drefnu slot cais ffôn neu rowch alwad i ni ar 02921679369 a gofynnwch am Reolwr Ffolio.

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau dros y ffôn, fideo neu e-bost yw **3^{ydd} Chwefror**.

Mae'r ffurflen gais yn gofyn cyfres o gwestiynau amdanoch chi ac am ddisgrifiad 500 gair o'ch syniad. Gallwch hefyd anfon hyd at 5 o ddogfennau ategol atom mewn e-bost, boed hynny'n fwrdd hwyliau, dolenni i gerddoriaeth, sgript neu enghraifft o waith ysgrifennu – unrhyw beth a allai gefnogi ein dealltwriaeth o'r hyn rydych yn ceisio ei ddweud a sut. Rhaid anfon y dogfennau ategol hyn yr un pryd â'r ffurflen gais ac erbyn y dyddiad cau.

Byddwn yn gofyn i chi lenwi ffurflen amrywiaeth pan fyddwch yn gwneud cais i Ffolio ond bydd y ffurflen hon yn cael ei chadw ar wahân i'ch cais. Bydd yn ddiennw ac ni fydd y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn edrych arni. Dim ond fel y gallwn asesu pa mor dda'r ydym yn gwneud wrth gyrraedd talent sy'n adlewyrchu poblogaeth Cymru y bydd yn cael ei defnyddio ac fel y gallwn newid y ffordd rydym yn gweithio er mwyn bod yn fwy hygrych.

Ar ein gwefan fe welwch gyfres o Gwestiynau Cyffredin ynglŷn â Ffolio – os na allwch ddod o hyd i'ch ateb yn y fan honno, anfonwch e-bost i Caroline ac Amy.

Bydd y ceisiadau'n cael eu hasesu gan banel o gynrychiolwyr o Ffilm Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru, BBC Cymru ac o leiaf un gwneuthurwr ffilmiau byr arloesol. Gan dybio eich bod yn gymwys ar gyfer y cynllun, byddwn yn gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar:

- Potensial creadigol a gwreiddioldeb y cynnig yn unol â'r adran ' pa fath o syniadau ' uchod;
- Dichonoldeb y prosiect yn unol â'r gyllideb;
- Amrywiaeth rhestr fer llechen Ffolio o ran genre/cyfryngau, cynnwys, gwasgariad daearyddol, cefndiroedd creadigol yr artistiaid a'r cynulleidfaoedd posibl ar gyfer eu syniad.

Byddwn yn dod yn ôl atoch gyda phenderfyniad cyn pen 4 wythnos ar ôl gwneud cais.

Yn anffodus, adnoddau cyfyngedig sydd gennym, felly ni allwn roi adborth ar geisiadau nad ydynt wedi cyrraedd y rhestr fer.

Darllenwch ein telerau ac amodau llawn ar ein gwefan.

BETH SY'N DIGWYDD NESAF?

Os yw eich cais ar y rhestr fer, byddwch yn derbyn cyfarwyddyd proffesiynol a chymorth hyfforddiant cyn i'ch prosiect terfynol gael ei adolygu gan y panel unwaith eto. Yn ystod yr hyfforddiant hwn byddwn yn eich helpu i ddatblygu eich syniad, datblygu cyllideb ar gyfer y ffilm, deall y broses gynhyrchu a sut i adeiladu cysylltiad gyda chynulleidfaoedd ar lwyfannau'r BBC a thu hwnt. Bydd rhywfaint o'r cynnwys hyfforddiant hwn yn hygyrch o bell/ar-lein.

Bydd bwrsariaethau ar gael ar gyfer costau teithio a gofal plant sy'n gysylltiedig â mynd i hyfforddiant neu gyfarfodydd. Byddwch hefyd yn cael cefnogaeth ymarferol Rheolwyr Prosiect Ffolio, Amy a Caroline, a chynhyrchydd Ffolio yn y BBC.

Os caiff ei ddewis ar gyfer comisiynu, byddwch yn derbyn:

- Mentor penodedig yn y diwydiant a fydd yn gallu eich cefnogi drwy gydol y broses fel sbardun i rannu eich meddyliau creadigol ac i egluro'r broses ddarlledu dechnegol. Byddant yn gallu helpu i godi gwerth cynhyrchu eich gwaith ffilm neu waith sain a'ch taro i mewn i'w rhwydweithiau.
- Cefnogaeth barhaus gan Reolwyr Prosiect Ffolio a all eich cefnogi gydag unrhyw bryderon sydd gennych am gymryd rhan yn y broses a gweithio gyda chi i ddod o hyd i atebion. Cefnogaeth barhaus gan gynhyrchydd Ffolio yn y BBC a fydd yn eich cefnogi gyda datblygiad creadigol eich prosiect a'r broses gynhyrchu a chyflawni.
- Hyd at 5k fel cyllideb gynhyrchu i dalu costau megis ffioedd i'r rhai sy'n gweithio ar y ffilm, clirio hawliau cerddoriaeth neu logi gwisgoedd er enghraifft. Bydd cynhyrchydd Ffolio a'r BBC hefyd yn cynnig cefnogaeth eu gwybodaeth a'u cyfleusterau mewnol.
- Bwrsariaethau ychwanegol tuag at gostau teithio a gofal plant a allai fod yn rhwystr i gynhyrchu a chyflawni'r ffilm.

Bydd y broses o gomisiynu i gyflawni'r ffilm orffenedig yn cymryd tua 12 wythnos.

Byddwn yn gweithio gyda chi i ddatblygu cynlluniau rhyddhau ar gyfer eich ffilm fer orffenedig ac edrychwn ymlaen at ei gweld ar un o lwyfannau'r BBC, a thu hwnt!